



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cymru'n Gweithio

Briffio i Rhanddeiliaid



Cymru'n Gweithio
#newiddystori

Mae Cymru'n Gweithio, wedi'i gyflwyno gan Gyrfa Cymru, yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth gan Cronfa Gymdeithasol Ewrop.



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund



Cymru'n Gweithio

Briff Craidd



Mae Cymru'n Gweithio yn wasanaeth newydd a fydd yn darparu cymorth cyflogadwyedd sy'n syml ac effeithlon, sy'n ymateb i anghenion unigolion.

Dyma ymagwedd newydd sbon Llywodraeth Cymru at ddarparu cyngor diduedd yn ddi-dâl am gyflogadwyedd a gyrfaedd. Rydym yn ei gwneud yn haws i unigolion gael y cymorth priodol ar yr adeg iawn i ddiwallu eu hanghenion.

Bydd y gwasanaeth newydd, wedi'i gyflwyno gan Gyrfa Cymru, yn symleiddio mynediad, yn teilwra cyngor ac yn dod â'r cymorth sydd ar gael at ei gilydd i helpu pobl i leihau

a goresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymuno â'r byd gwaith.

Bydd yn darparu pwynt mynediad Cymru-gyfan at gymorth cyflogadwyedd i unigolion dros 16 oed, a fydd yn ategu rhwydweithiau cymorth presennol mewn rhanbarthau a'r rhai sy'n gweithredu wrth wraidd cymunedau.

Cymru'n Gweithio fydd unig bwynt mynediad, asesiad ac atgyfeiriad ar gyfer Cymorth Gwaith Cymru, rhaglen cymorth cyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei lansio yn Ebrill 2020.





Dyma'r lle iawn i gael y cymorth sydd ei angen arnoch.



Cymru'n Gweithio

Pam rydym yn cyflwyno gwasanaeth newydd?



- Mae Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn amlinellu ein cynigion i leihau cymhlethdod a chreu system gymorth sy'n fwy effeithlon ac o fewn cyrraedd hawdd.
 - Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno ymagwedd unigol tuag at gymorth cyflogadwyedd drwy greu system gymorth fwy syml ac effeithlon i helpu pobl i ymuno â'r byd gwaith.
 - Rydym yn hyrwyddo ymagwedd newydd at gyflawni cymorth cyflogadwyedd drwy weithio mewn ffordd fwy craff, fwy cydgysylltiedig sy'n torri ar draws ffiniau traddodiadol, y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth.
 - Mae'r weledigaeth hon wedi ei gwreiddio yn Ffyniant i Bawb, rhan o strategaeth hir-dymor Llywodraeth Cymru i greu mwy o swyddi o ansawdd gwell.
- presennol sy'n gweithredu mewn rhanbarthau, ac sydd wrth wraidd cymunedau;
- taith fwy llyfn i'r cwsmer, ac asesiad cadarn o'r angen a chynghor cyson i alluogi atgyfeiriad at y cymorth priodol ar yr amser iawn;
 - darpariaeth hyblyg gyda'r gallu i addasu'r model cyflwyno a gweithio mewn partneriaeth â rhwydweithiau cymorth presennol.

Bydd y gwasanaeth yn darparu:

- cynghor ac arweiniad cynhwysfawr a diduedd ar gyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc ac oedolion yn seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn, i nodi a goresgyn rhwystrau sy'n atal pobl rhag symud ymlaen tuag at gyflogaeth;
- gwasanaeth cenedlaethol sy'n cefnogi ac yn ategu sianeli



Cymru'n Gweithio

Beth sy'n wahanol a sut mae'n ychwanegu gwerth?



- Gwasanaeth i bobl 16+, waeth beth fo, eu lleoliad, eu gofynion hygyrchedd neu eu hamgylchiadau personol.
- Enw newydd, brand ac ymgyrch farchnata aml-sianel 'ar gael bob amser' i greu presenoldeb cryf yn y farchnad.
- Rhagor o gynghorwyr i weithio gyda phobl 16+ oed, drwy bresenoldeb wyneb yn wyneb ar y stryd fawr, gwasanaethau ar-lein a sgwrsio ar y we, llinell gymorth dros y ffôn a mynediad drwy bob canolfan waith ledled Cymru.
- Cymorth ysgafn lle mae gan gwsmeriaid anghenion cymorth llai dwys, ond lle mae angen cyngor/arweiniad gyrfaoedd i gymryd y camau nesaf.
- Marchnata estynedig, ymgysylltu â rhanddeiliaid a thimau rhanbarthol hygyrch i weithio gyda phartneriaid i reoli cyfeirio a throsglwyddo cleientiaid yn ddidrafferth, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ddatgysylltu.
- Porth digidol gwell drwy bresenoldeb newydd ar y we, cyfryngau cymdeithasol gwell, ymgyrchoedd marchnata digidol, a Darganfyddwr Cymorth newydd ar-lein i alluogi unigolion i gynorthwyo eu hunain ac i ymarferwyr eraill symleiddio mynediad ac atgyfeirio at gymorth sydd ar gael.
- Prosesau trosglwyddo data gwell sy'n cynyddu'r cytundebau rhannu data newydd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i alluogi gwell cysylltedd digidol ac atgyfeirio.



Mae cyngor yn cael ei deilwra i anghenion unigol.





Cymru'n Gweithio

Pwy fydd yn cael cymorth a ble caiff ei gyflwyno?




Bydd Cymru'n Gweithio yn cefnogi:

- pob cwsmer sydd wedi gadael addysg orfodol, heb ystyried ei leoliad, anghenion hygyrchedd nac amgylchiadau personol;
- cwsmeriaid sydd angen cymorth i ymuno â'r byd gwaith, neu symud i waith llawn amser;
- pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar.

Bydd Cymru'n Gweithio yn cael ei gyflwyno:

- mewn Canolfannau Gyrfaedd ledled Cymru;
- drwy linell gymorth dros y ffôn;
- drwy sgwrs ar-lein;
- mewn adeiladau a 'chanolfannau' partneriaid;
- mewn canolfannau cymunedol;
- mewn llyfrgelloedd a mannau allgymorth eraill.



Galwch i weld Cymru'n Gweithio mewn canolfannau galw heibio amrywiol.





Cymru'n Gweithio

Sut bydd yn gweithredu?



Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad proffesiynol ar yrfaeodd, asesu yn seiliedig ar anghenion ac atgyfeirio at gymorth priodol drwy amrywiaeth o sianeli sy'n ymateb i ofynion cwsmeriaid, gan gynnwys:

- gwybodaeth ac arweiniad wyneb yn wyneb;
- cyflwyniadau grŵp;
- llwyfannau digidol (micro-safle, rhyngweithiadau ar-lein, ar y ffôn, sianel deledu Gyrfa Cymru,

llwyfannau cyfryngau cymdeithasol);

- digwyddiadau, gweminarau, diwrnodau agored, digwyddiadau cyflogwyr;
- canolbwyntio ar anghenion y cwsmer i sicrhau bod gofynion cymorth yn cael eu diwallu.



Mynediad at amrywiaeth eang o gymorth arbenigol.

